

19/07/22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd blwyddyn brysur iawn unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth tuag at yr ysgol eleni. Mae'n braf, yn ystod ail hanner eleni yn enwedig, gallu gweld ein disgyblion yn ailgydio mewn a phrofi amrywiaeth o brofiadau sydd yn cyfoethogi eu hamser ym Mryn Tawe. Mae'r bartneriaeth ysgol a chartref lwyddiannus yma yn allweddol i sicrhau llwyddiant academiaidd a lles eich plentyn - y flaenoriaeth i ni gyd. Mae cefnogi ac hyrwyddo'n ddyddiol ein tair egwyddor yn yr ysgol - defnydd cyson o'r Gymraeg y tu allan i wersi, Parch tuag at gyfoedion ac oedolion yr ysgol a Dyfalbarhad ym mhob agwedd o fywyd ysgol, yn cadarnhau agwedd bositif ac iach disgyblion tuag at addysg a dysgu yma ym Mryn Tawe. Yn ogystal, gwerthfawrogwn eich ymdrechion i sicrhau cydymffurfriad gyda'n disgwyliadau uchel ar gyfer presenoldeb, ymddygiad ac ymddangosiad eich plentyn.

Gyda diwedd y tymor yn nesáu yn gyflym iawn hoffwn rannu rhai dyddiadau pwysig gyda chi rhwng nawr a dechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf:

Dyddiad	Gweithgaredd
<b>DIWEDD TYMOR</b>	
Gwener 22.07.22	HMS – dim ysgol i ddisgyblion
<b>CANLYNIADAU SAFON UWCH A TGAU</b>	
Iau 18.08.22	Canlyniadau Safon Uwch
Iau 25.08.22	Canlyniadau TGAU
<b>DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2022-23</b>	
Llun 05.09.22	HMS – dim ysgol i ddisgyblion
Mawrth 06.09.22	HMS – dim ysgol i ddisgyblion
Mercher 07.09.22	Blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig i fynychu'r ysgol
Iau 08.09.22	Pob disgybl yn dychwelyd Bl. 7-13eg

Yn ogystal, hoffwn ddiolch i staff yr ysgol am eu gwaith dyfal a'u parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol ar ran eich plentyn. Hoffwn ddiolch a dymuno'n dda yn bersonol i wyth aelod o staff sydd yn ein gadael ar ddiwedd eleni.

Mae ein diolch yn fawr i aelodau o'n tîm o gynorthwywyr dysgu sydd yn ein gadael - Mrs Anne Morgan, Mr Scott Cornelius a Mr Ioan Imms, gyda diolch arbennig Mrs Rhian Evans sydd yn ymdeol yn dilyn cyfnod o 14 o flynyddoedd yn cefnogi disgyblion Bryn Tawe. Diolch hefyd i Miss Laura Hughes a dymuniadau gorau wrth gymhwyso fel athrawes.

Hoffwn ddiolch a dymuno'n dda i Mr Dafydd Roberts a Miss Carys Mullock ar eu llwybrau gyrfa newydd; diolch arbennig a dymuniadau gorau i ddau aelod o staff profiadol wrth i Mrs Nicola ap Gwyn a Mrs Bethan Williams adael; ac mae ein diolch fel ysgol yn fawr i Mr Carwyn Jenkins, Dirprwy yr ysgol ers 2013 ac aelod o'r UDA ers 2007 a dymunwn yn dda



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
 Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
 Ffôn 01792 560600

Ebost: [ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



iawn iddo yn ei swydd newydd gydag Estyn. Diolch i chi gyd am eich cyfraniad amhrisiadwy i brofiadau ein disgyblion ym Mryn Tawe a chofiwch y bydd wastad croeso yma i chi gyd!

Edrychwn ymlaen at ddathlu **canlyniadau disgyblion y 6ed ar y 18fed o Awst** eleni a **blynyddoedd 11 a 10 ar y 25ain o Awst** – dymuniadau gorau i bawb! Bydd staff yr ysgol ar gael i gefnogi ac i drafod unrhyw gwestiynau all godi yn sgil y canlyniadau. Byddwn ar agor am 08:30 fel y gall disgyblion gasglu eu canlyniadau. Bydd cyfle i ddisgyblion bl.11 gofrestru'n ffurfiol ar gyfer dychwelyd i'r 6ed ar y 25ain.

Ga'i ddymuno gwyliau hapus i'n disgyblion a'n rhieni, gan obeithio y cewch gyfle i ymlacio a mwynhau, cyn ein bod yn croesawu ein disgyblion yn ôl ar gyfer blwyddyn lwyddiannus a phrysur eto yn yr ysgol. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw syniadau y gallwn eu defnyddio i wella bywyd ein disgyblion ym Mryn Tawe ymhellach, cysylltwch â mi yn yr ysgol neu ar yr e-bost isod i drafod.

Yn ddifuant,



Pennaeth



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur  
MEWN POBL

